

Nodyn briffio – Hydref 2025

Ymgynghoriad statudol ar y cynnig am Barc Cenedlaethol Glyndŵr

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn cyhoeddi'r nodyn briffio hwn i roi eglurhad pellach ar sawl mater, yn dilyn deialog gydag ymgynghoreion statudol a Llywodraeth Cymru. Bwriad y nodyn briffio hwn yw cefnogi awdurdodau lleol i baratoi eu hymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad statudol ar y bwriad o ddynodi parc cenedlaethol newydd yng Nghymru, sef Parc Cenedlaethol Glyndŵr.

Egluro rhai materion.

1. Trefniadau Cynllunio:

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi datganiad i egluro ei safbwynt ar drefniadau cynllunio dan unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol yn y dyfodol. Bydd y materion hyn yn derbyn sylw pellach ar ôl gwneud y Gorchymyn Dynodi, ond cyn i Weinidogion Cymru gadarnhau'r Dynodiad.

'Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod ac yn deall pwysigrwydd trefniadau cynllunio o dan unrhyw awdurdod Cynllunio newydd.

Er yn y pen draw, fel y nodir o dan y ddeddfwriaeth, byddai hwn yn benderfyniad i unrhyw Awdurdod newydd, mae'n un lle byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio'n weithredol gyda'r corff newydd yn ystod y cyfnod pontio i sicrhau bod y mater yn cael ei ystyried yn ofalus er mwyn gwneud y mwyaf o effeithiolrwydd y trefniadau newydd. Byddai hyn yn cynnwys ceisio mewnbwn yr holl Awdurdodau Lleol o fewn ffiniau Parc newydd i helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu ffurf, swyddogaeth ac adnoddau trefniadau cynllunio, gan gynnwys rhannu neu ddirprwyo swyddogaethau.

Mae'r dull partneriaeth hwn eisoes wedi'i fabwysiadu yn y gwaith y mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi'i wneud wrth ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer cynigion y Parc Cenedlaethol newydd. Roedd hyn yn cynnwys comisiynu ymgynghoriaeth Arup i gynhyrchu'r adroddiad "Adolygiad Gwasanaethau Cynllunio yng nghyd-destun Parc Cenedlaethol arfaethedig yng Nghymru" sy'n nodi llinell sylfaen y gwasanaeth cynllunio presennol yn yr ardal ar draws y 5 awdurdod lleol yr effeithir arnynt ac yn ystyried modelau amgen ar gyfer cyflawni.

Byddem hefyd yn disgwyl i ddatblygiad unrhyw wasanaeth cynllunio newydd ystyried strategaeth gynllunio ehangach Llywodraeth Cymru sy'n annog ac yn cefnogi rhannu gwasanaethau a datblygu cynlluniau ar y cyd. Byddai ymestyn y dull gwasanaeth a rennir llwyddiannus presennol i fwynau, gwastraff a seilwaith ledled Gogledd Cymru yn cael ei archwilio gyda'r nod o ymestyn y dull i swyddogaethau cynllunio arbenigol a thechnegol eraill.'

Noder: Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i bob awdurdod lleol yr effeithir arnynt gymryd rhan mewn grŵp cyngori. Y bwriad yw y bydd y grŵp hwn yn llywio datblygiadau ar ôl i CNC wneud Gorchymyn Dynodi posibl.

2. Datganiad ariannu:

Mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi darparu'r sicrwydd canlynol ynglŷn â chyllid:

'Yn dilyn fy llythyr ar 16 Ebrill, ysgrifennaf i ddarparu rhagor o wybodaeth am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid at y dyfodol ar gyfer y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig, a goblygiadau ariannol unrhyw benderfyniad a wneir gan Weinidogion Cymru ar Gyngor Sir y Fflint ynghylch y dynodiad. Gan fod potensial i hyn effeithio ar sawl Awdurdod Lleol, rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Brif Weithredwyr Awdurdodau Lleol Sir Ddinbych, Wrecsam, Powys a Gwynedd.

Fel yr amlinellwyd yn fy ateb blaenorol, mae'n gwbl hanfodol bod Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei ariannu'n briodol heb leihau'r cyllid craidd ar gyfer ein Hawdurdodau Parciau Cenedlaethol presennol, a hefyd heb leihau'r cyllid sydd ar gael i Awdurdodau Lleol Cymru. Rydym wedi ymrwymo i'r egwyddor hon a byddwn yn parhau i weithio i asesu'r costau sydd ynghlwm wrth sefydlu Parc Cenedlaethol newydd a'r cyllid sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

Ar hyn o bryd, cyn unrhyw argymhelliad y gallai Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ei wneud ynglŷn ag unrhyw ddynodiad newydd, nid yw'n bosibl meintoli cost Parc Cenedlaethol newydd posibl yn gywir eto. Fodd bynnag, gallaf gadarnhau fy mod bellach wedi gallu ystyried yn fanylach y costau mwyaf sylweddol a fyddai'n deillio o greu Awdurdod Parc Cenedlaethol newydd a chadarnhau y bydd y rhain yn rhan o gynlluniau ariannol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Yn benodol, gan ddefnyddio costau bras yn seiliedig ar ein Parciau Cenedlaethol presennol, rwyf wedi ystyried y costau refeniw craidd tebygol sy'n deillio o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 sy'n gofyn am gyllid gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol cyfansoddol yr APC. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu cyllid ychwanegol i ddiwallu'r ddau ofyniad hyn yn llawn pe bai Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei ddynodi. Hynny yw, ni fyddai unrhyw faich ariannol yn cael ei roi ar eich Cyngor i ddarparu cyllid i Barc Cenedlaethol newydd, gan y byddai cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu i'ch Awdurdod i dalu'r costau a amlinellir o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995.

Yn ogystal, byddwn yn nodi bod ein APCau presennol wedi elwa yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar gael mynediad at gyllid cyfalaf ychwanegol gan Lywodraeth Cymru drwy raglenni fel Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy (SLSP), Ffermio Bro a Lleoedd Lleol ar gyfer Natur i fwrw ymlaen â gwaith pwysig mewn meysydd yn cynnwys adfer natur, newid hinsawdd, mynediad a thwristiaeth gynaliadwy. Rwy'n disgwyl y byddai unrhyw APC newydd yn gallu cael mynediad at y cynlluniau hyn neu rai cyfwerth yn y dyfodol ac elwa arnynt.

Byddai angen cyfnod pontio rhwng cadarnhau unrhyw ddynodiad newydd a sefydlu Awdurdod Parc Cenedlaethol newydd. Er bod angen gwaith pellach ar natur trefniant pontio o'r fath, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu darparu cyllid tuag at hyn.

Yn olaf, er bod yr uchod wedi canolbwyntio ar gostau a chyllid, byddwn hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod gan Barciau Cenedlaethol y potensial i ddod â buddion economaidd i'r ardaloedd y maent yn eu gwasanaethu megis trwy hybu twristiaeth a'r economi ymwelwyr, yn ogystal â manteision ehangach. Fel rhan o'i asesiadau, mae CNC wedi cynnal Adolygiad Effaith

Economaidd ar gyfer y Parc Cenedlaethol arfaethedig, a fydd ar gael i Awdurdodau Lleol ochr yn ochr â thystiolaeth newydd arall gan CNC yn ystod ymgynghoriad statudol yn yr hydref (yn amodol ar gymeradwyaeth gan fwrdd CNC).'

Sylwer: Adlewyrchir yr elfen ardoll awdurdodau lleol o'r cyllid yn setliadau unigol yr awdurdodau lleol. Dyma'r arfer safonol ar gyfer y Parciau Cenedlaethol presennol yng Nghymru. Nid trefniant dros dro nac unigryw ar gyfer y dynodiad hwn mo hyn. Mae'r datganiad uchod yn ailadrodd hyn ac yn atgyfnerthu y byddai'n berthnasol i Barc Cenedlaethol Glyndŵr.

3. Cynlluniau Datblygu Lleol:

Mae Parc Cenedlaethol yn dod yn ystyriaeth berthnasol mewn perthynas â chynllunio unwaith y bydd Gorchymyn Dynodi yn cael ei gadarnhau gan Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, bydd awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr fel ei gilydd yn ystyried perthnasoldeb y Parc Cenedlaethol dros amser - a bydd lefel y tebygolrwydd a'r risg yn cynyddu trwy wahanol gamau'r broses ddynodi. Bydd trefniadau trosiannol yn cael eu rhoi ar waith tra bod Awdurdod y Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei sefydlu, a bydd hyn yn helpu i osgoi effeithiau anfwriadol ar Gynlluniau Datblygu Lleol. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig ac yn bwriadu osgoi dyblygu neu gostau diangen. Bydd deialog adeiladol rhwng awdurdodau cynllunio lleol a Llywodraeth Cymru yn hanfodol a bydd y grŵp cynghori uchod yn helpu i lywio'r drafodaeth yn hyn o beth.

4. Amserlen a Chamau Nesaf:

Dyddiad cau'r Ymgynghoriad: Gofynnir am ymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad ar y Gorchymyn Dynodi drafft a'r ffin arfaethedig erbyn 8 Rhagfyr 2025.

Penderfyniad Bwrdd CNC: Ar 12 Ionawr 2026, bydd Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried y cynnig ochr yn ochr ag ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn penderfynu a ddylid gwneud y Gorchymyn Dynodi a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gadarnhau.

Cyfnod Hysbysu: Os bydd Gorchymyn yn cael ei wneud, ond cyn iddo gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gadarnhau, rhaid i CNC gyhoeddi Hysbysiad yn cadarnhau bod y Gorchymyn wedi'i wneud a'i fod yn mynd i gael ei gyflwyno i'w gadarnhau. Mae hyn yn sbarduno cyfnod o 28 diwrnod lle gellir cyflwyno sylwadau neu wrthwynebiadau. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd CNC yn cysylltu â phob awdurdod lleol. Os cyflwynodd awdurdod wrthwynebiad yn ystod y cyfnod ymgynghori, neu ddarparu cefnogaeth amodol, a bod yr awdurdod hwnnw'n parhau i fod yn anfodlon, rhaid iddo gadarnhau ei wrthwynebiad yn ystod y cyfnod Hysbysu hwn. Noder mai cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw sicrhau bod unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau yn cael eu cyflwyno i CNC mewn pryd ac yn unol â'r Hysbysiad.

5. Ymholiad Posibl:

Bydd unrhyw wrthwynebiad a wneir gan awdurdod lleol (nad yw'n cael ei dynnu'n ôl) yn sbarduno ymchwiliad lleol. Os cynhelir ymchwiliad lleol, gwneir asesiad o'r goblygiadau ariannol ac adnoddau, natur y gwrthwynebiadau a sut y gall awdurdodau lleol sy'n gwrthwynebu ddewis cymryd rhan.

Nid oes gofyn i awdurdodau lleol nad ydynt yn gwrthwynebu gymryd rhan, er y gallant ddewis gwneud sylwadau ar faterion penodol.

Cefnogaeth a gwybodaeth bellach.

Mae CNC yn parhau i fod ar gael i gynghori awdurdodau lleol drwy gydol y broses hon. Cysylltwch â ni drwy eich swyddogion enwebedig neu gan ddefnyddio'r manylion isod os oes angen eglurhad neu gymorth pellach arnoch.

Rydym yn eich atgoffa bod y dogfennau canlynol ar gael ar hyn o bryd drwy wefan y prosiect:

<https://ymgyngori.cyfoethnaturiol.cymru/north-east-gogledd-ddwyrain/proposed-national-park-statutory-consultation-2025>

Ar gael yn flaenorol	Dadansoddiad newydd 2025
Adroddiad Ardal neu Chwilio (a map)	Adroddiad Buddion i Natur
Adroddiad cyfnod ymgysylltu (2023)	Asesiad o'r Effaith ar Iechyd
Adroddiad ar y Nodweddion Arbennig	Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg
Adroddiad Grymoedd dros Newid	Adroddiad effaith economaidd
Adroddiad Opsiynau Rheoli	Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
Adroddiad Ardaloedd Gwerthuso	Adroddiad Adolygiad o Wasanaethau Cynllunio
Adroddiad Ardal Ymgeisiol (a map)	Y prosesau ar gyfer nodi enw
Adroddiad Ymgynghoriad Cyhoeddus (2024)	Adolygiad o'r ffin

Yn gywir

Ash Pearce

rhaglen.tirweddau.dynodedig@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Arweinydd Tîm Rhaglen Tirweddau Dynodedig / Designated Landscapes Programme Team Leader



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales**

**Byd natur a phobl
yn ffynnu gyda'n gilydd**

**Nature and people
thriving together**



**cyfoethnaturiol.cymru
naturalresources.wales**